OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 3042 (Cy.320)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2011

Gwnaed - - - -	*19 Rhagfyr 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*20 Rhagfyr 2011*
Yn dod i rym - -	*16 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 11(1), (2)(b), (d), (f) a (3), 12(1), (2) a (4), 24(1)(c) a 26(3) o Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 16 Ionawr 2012 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2004" ("*the 2004 Regulations*") yw Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004(**3**).

Diwygio Rheoliadau 2004

2. Mae Rheoliadau 2004 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Diwygio rheoliad 2(1) (dehongli)

3. Yn rheoliad 2(1)(**4**)—

(a) hepgorer y diffiniad o "y Cynulliad" ("*the Assembly*");

(b) hepgorer y diffiniad o "gwastraff trefol a gasglwyd" ("*collected municipal waste*");

(c) yn y mannau priodol mewnosoder—

(**1**) 2003 p. 33. Mae diwygiadau i adran 24 o'r Ddeddf nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2004/1490 (Cy. 155); diwygiwyd gan O.S. 2005/1820 (Cy. 148) Atodlen 2 paragraffau 5 i 8 ac O.S. 2011/971 (Cy. 141) rheoliad 3.
(**4**) Mae diwygiadau i reoliad 2(1) nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.